Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# Adroddiad Blynyddol 2023

Mehefin 2023




senedd.cymru

Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
**www.senedd.cymru/SeneddDeisebau**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

**Y Pwyllgor Deisebau**
**Senedd Cymru**
**Bae Caerdydd**
**CF99 1SN**

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **Deisebau@senedd.cymru**
Twitter: **@SeneddDeisebau**

**© Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2023**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Deisebau**

# Adroddiad Blynyddol 2023

Mehefin 2023

## Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
**www.senedd.cymru/SeneddDeisebau**

---

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



**Cadeirydd y Pwyllgor:**
**Jack Sargeant AS**
Llafur Cymru



**Rhys ab Owen AS**
Aelod Annibynnol Plaid Cymru



**Luke Fletcher AS**
Plaid Cymru



**Joel James AS**
Ceidwadwyr Cymreig



**Buffy Williams AS**
Llafur Cymru

### Mynychodd yr Aelodau a ganlyn fel dirprwyon:



**Heledd Fychan AS**
Plaid Cymru



**Jayne Bryant AS**
Llafur Cymru



**Rhianon Passmore AS**
Llafur Cymru



**Altaf Hussain AS**
Ceidwadwyr Cymreig

# Cynnwys

**Rhagair y Cadeirydd.......................................................................................... 5**

**1. Cyfeiriad strategol ...................................................................................... 7**

Cylch gorchwyl y Pwyllgor ........................................................................................ 7

Arloesedd ac ymchwil ................................................................................................ 10

**2. Deisebau a drafodwyd rhwng mis Mai 2022 a mis Ebrill 2023 ......... 11**

**3. Deisebau'r Flwyddyn .................................................................................. 12**

Diogelwch dŵr ac atal boddi ..................................................................................... 13

Canlyniad ........................................................................................................... 13

Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl ............................................................................................................................ 14

Canlyniad ........................................................................................................... 14

Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru ................................................... 15

Canlyniad ........................................................................................................... 15

Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn...... 16

Canlyniad ........................................................................................................... 17

Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru ...................................................................... 17

Canlyniad ........................................................................................................... 17

# Rhagair y Cadeirydd

Y llynedd, cafwyd ffyrdd newydd i broses ddeisebau'r Senedd sicrhau bod llais pobl Cymru yn cael ei glywed yn Senedd Cymru.

Rydym wedi cynnal rhai dadleuon anhygoel, cwrdd â mwy o ddeisebwyr, a dwyn y materion sy'n bwysig i bobl Cymru i sylw Gweinidogion, ein Senedd, a'r cyhoedd yn ehangach.

Ddechrau'r Senedd hon, cytunwyd fel pwyllgor i flaenoriaethu ein hamser ar y deisebau lle roeddem yn teimlo y gallem wneud gwahaniaeth – mae hyn wedi talu ar ei ganfed yn ein hail flwyddyn waith lawn. Rydym wedi cwblhau ymchwiliadau a chyhoeddi ystod o adroddiadau sy'n edrych ar ddiogelwch dŵr, rasio milgwn, pobl ifanc yn y system ofal, a chanlyniadau newid i wythnos pedwar diwrnod. Bydd yr adroddiadau hynny – a'r argymhellion a wnaethom – yn sicrhau newid gwirioneddol i bolisïau, blaenoriaethau cyllido a gweithgareddau Llywodraeth Cymru. Maent wedi sicrhau newid gwirioneddol i ddeisebwyr, a phobl Cymru yn ehangach.

Nid dyna’r terfyn. Eisoes eleni, rydym wedi dechrau ymchwiliad newydd yn edrych ar y rheswm y gorfodwyd cynifer o bobl yng Nghymru i gael mesuryddion rhagdalu. Rydym hefyd wedi gofyn am ystod o ddadleuon ar gyfer tymhorau'r haf a'r hydref.

Yn ogystal â myfyrio ar ein gwaith a'n harferion ein hunain fel rhan o'n hadroddiad blynyddol, rwy'n falch ein bod hefyd yn gweithio gydag academyddion ym Mhrifysgol Leeds i gael eu mewnbwn annibynnol i sut y gallwn wella'r ffordd rydym yn gweithio. Mae eu hymchwil yn edrych ar rwystrau i gyfranogiad, a sut y gallwn gynnig cyfleoedd i fwy o bobl yng Nghymru godi'r materion sydd bwysicaf iddynt. Edrychaf ymlaen at ddarllen eu casgliadau’n ddiweddarach eleni.

Mae'r broses ddeisebau yn parhau i godi materion allweddol – am ein gwasanaethau iechyd, am yr ieithoedd rydym yn eu defnyddio a'r ffordd rydym yn symud o le i le – boed yn y car, yn cerdded, neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys rhai enghreifftiau ysbrydoledig: ein henwebeion i fod yn Ddeiseb y Flwyddyn. Gobeithio y byddwch yn eu darllen (ac yn pleidleisio dros eich ffefryn). Ond rwyf hefyd yn gobeithio y byddwch yn tybio a oes deiseb y gallech ei chreu. Oherwydd y gallai'r newid rydych am iddo ddigwydd ddechrau gyda'r cwestiwn syml hwnnw, a chlicio ar ein gwefan. Beth ydych yn aros amdano?



Jack Sargeant, Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau

# 1. Cyfeiriad strategol

Mae'r bennod hon yn nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol y Pwyllgor Deisebau.

**1.** Cytunodd y Pwyllgor ar rai blaenoriaethau ac amcanion strategol ddechrau'r Chweched Senedd i arwain ei waith.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**2.** Dyma gylch gorchwyl y Pwyllgor hwn, fel y cytunodd y Senedd arno ar 23 Mehefin 2021:

"*[...] cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 23.*"

**3.** Yn ein trafodaeth gychwynnol, cydnabu'r Aelodau – yn unigryw ymhlith pwyllgorau'r Senedd – mai pobl Cymru, ynghyd â'r materion y maent yn teimlo'n angerddol yn eu cylch, sy'n gosod agenda'r Pwyllgor Deisebau.

**4.** Cytunodd y Pwyllgor ar yr amcanion a ganlyn:

Byddwn yn blaenoriaethu gwaith a all olygu newid gwirioneddol i'n cymunedau.

Byddwn yn bwyllgor gweladwy sy'n mynd allan ac yn ymgysylltu â phobl ledled Cymru.

Byddwn yn annog deisebau o ansawdd uwch a all lywio polisi a hyrwyddo enghreifftiau llwyddiannus o ddeisebau sy'n arwain at newid polisi.

## Monitro a gwerthuso

**5.** Mae'r Pwyllgor wedi parhau i fod yn ymwybodol o bwysigrwydd myfyrio'n rheolaidd ar ei waith, ei brosesau a'i effaith, fel y tynnwyd sylw ato yn yr **adroddiad**[1] a luniwyd ddiwedd y Bumed Senedd gan gymrawd academaidd yr Athro Diana Stirbu.

**6.** Mae'r Pwyllgor yn adolygu ei waith yn rheolaidd mewn sesiwn breifat fer ar ddiwedd pob cyfarfod, ac mae'n edrych ar y deisebau sy'n casglu llofnodion.

[1] Pŵer, Dylanwad ac Effaith Pwyllgorau'r Senedd: Datblygu fframwaith ar gyfer mesur effeithiolrwydd pwyllgorau, yr Athro Diana Stirbu, Coleg Prifysgol Llundain. Mai 2021.

**7.** Mae adroddiad blynyddol y Pwyllgor yn gyfle i bwyso a mesur a myfyrio'n fanylach, ac ystyried a oes angen rhagor o waith ar unrhyw agwedd arall ar y broses ddeisebu.

**8.** Y llynedd, gwnaethom gyhoeddi ffigurau ar gyfer y flwyddyn Mai 2021-Ebrill 2022, i adlewyrchu'r 12 mis cyntaf ers Etholiad Cyffredinol Cymru 2021. Eleni, er mwyn darparu ffigurau cyson o flwyddyn i flwyddyn, rydym wedi newid i adrodd ar gyfer y flwyddyn ariannol (Ebrill-Mawrth) – yn unol â chonfensiynau casglu data ac adrodd ar draws Comisiwn y Senedd.

**Tabl 1: data deisebau**

| | Ebrill 21-Mawrth 22 | Ebrill 22-Mawrth 23 |
|---|---|---|
| Deisebau newydd: | 248 | 187 |
| Gwrthodwyd (gwrthodwyd gan y tîm clercio): | 162 | 103 |
| Deisebau sy'n cael eu hystyried ar gyfer pwyllgor a nifer y llofnodion: | 85 (197,342) | 56 (127,257) |
| Deisebau dros 10,000: | 6 | 5 |

**9.** Bu gostyngiad yn nifer y deisebau a nifer y llofnodion yn ystod y flwyddyn. Nid yw'r gostyngiad hwn, o uchafbwynt yn ystod pandemig COVID, yn unigryw i Gymru, ac mae hefyd i'w weld yn y data deisebau ar gyfer Senedd y DU a Senedd yr Alban. Fodd bynnag, dylid nodi bod nifer y deisebau a'r llofnodion yng Nghymru yn parhau i fod yn uwch nag yn 2018/19.

**10.** Ym mis Ionawr, gwnaeth y Pwyllgor gais i edrych yn fanylach ar rai o'r data sylfaenol y tu ôl i'r system ddeisebau i weld pa wersi y gellid eu dysgu. Mae dadansoddiad yn dangos y defnyddir dyfais symudol 90 y cant o'r amser i fynd i wefannau deisebau'r Senedd erbyn hyn, ac y defnyddir cyfrifiadur bwrdd gwaith 10 y cant o'r amser yn unig. Mae tua 45 y cant o'r rhai sy'n mynd i'r gwefannau'n dod yn uniongyrchol i'r ddeiseb (er enghraifft, drwy glicio ar linc a rennir mewn e-bost, tecst neu ap negeseuon). Mae canran debyg yn dod o'r cyfryngau cymdeithasol – gan mwyaf Facebook, ond rhywfaint o Twitter a nifer fach o Instagram). Rydym yn ystyried beth yw ystyr hyn i'n gwaith ein hunain, a'r manteision o gynnig botymau rhannu ychwanegol ar gyfer llwyfannau eraill.

**11.** O ganlyniad i drafodaethau'r Pwyllgor o’r ffigurau, mae'r tîm clercio wedi cyhoeddi gwybodaeth ychwanegol i gefnogi deisebwyr i hyrwyddo eu deisebau, gan dynnu sylw at bethau sydd wedi gweithio i ddeisebwyr eraill. **https://senedd.cymru/busnes-y-senedd/deisebau/hyrwyddwch-eich-deiseb/**

## Ffyrdd o weithio

**12.** Mae aelodau a thystion wedi parhau i ddefnyddio'r darpariaethau hybrid a fabwysiadwyd gyntaf yn ystod pandemig COVID. Mae hyn wedi rhoi mwy o hyblygrwydd i aelodau'r Pwyllgor (ac yn enwedig dirprwyon) gyfuno eu gwaith pwyllgor â chyfrifoldebau etholaethol. Yn ogystal, mae wedi caniatáu i ystod ehangach o dystion roi tystiolaeth i'r Pwyllgor, er enghraifft, yn yr wythnosau diwethaf roedd deisebydd yn gallu cyfuno cymryd rhan yn y cyfarfod wrth gynnal apwyntiadau y cytunwyd arnynt yn flaenorol yng ngogledd Cymru. Yr un diwrnod, roedd Dean Kirby, y newyddiadurwr papur newydd i, hefyd yn gallu rhoi tystiolaeth i'r Pwyllgor o'i ddesg, heb deithio i Fae Caerdydd.

## Cyflwyno deisebau




**13.** Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod â deisebwyr ac wedi derbyn nifer o ddeisebau ar risiau'r Senedd. Mae hyn wedi bod yn gyfle i ymgyrchwyr dynnu lluniau a hyrwyddo eu hachos, ac i'r

Aelodau ofyn cwestiynau am yr hyn a ysbrydolodd y ddeiseb a'r hyn y mae'r deisebwyr yn gobeithio ei gyflawni.

**14.** Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae hyn wedi cynnwys cyflwyno deisebau ynghylch: gwasanaethau ymateb cyflym yn Nhrefynwy; cadw Mynyddoedd Cambria; canser metastatig y fron; a natur newidiol gwasanaethau milfeddygol yng Nghymru.

## Ymweliadau

**15.** Ymwelodd y Pwyllgor â Chronfa Ddŵr Pontsticill ym mis Mai 2022 i lywio ei waith ar ddiogelwch dŵr a gweld y materion sy'n gysylltiedig â gwneud ardaloedd mawr o ddŵr. Ddechrau 2023, ymwelodd y Pwyllgor â datblygiad tai newydd yn Llaneirwg, fel rhan o'i ymchwil i gynhyrchu ynni adnewyddadwy a thlodi tanwydd.

## Arloesedd ac ymchwil

**16.** Yn ystod y flwyddyn, mae'r Pwyllgor Deisebau wedi dechrau monitro pwy sy'n creu deisebau, drwy ofyn i grewyr lenwi ffurflen fer yn gofyn ystod o gwestiynau. Byddwn yn dadansoddi'r ffigurau hyn ddiwedd tymor yr haf, i ddeall yn well pwy sy'n creu deisebau, pwy sydd ddim yn creu deisebau, a'r rhwystrau posibl i gyfranogiad. Bydd yn ein galluogi i ddod o hyd i ffyrdd o sicrhau bod ein proses ddeisebau’n gweithio i bawb yng Nghymru.

**17.** Yn ystod y misoedd diwethaf, mae tîm clercio'r Pwyllgor wedi bod yn gweithio'n agos gydag ymchwilwyr ym Mhrifysgol Leeds, sy'n ymchwilio i'r rhwystrau i ymgysylltu â Senedd Cymru a Senedd y DU.

**18.** Edrychwn ymlaen at gael canlyniadau grwpiau ffocws – gyda deisebwyr a'r rhai nad ydynt wedi ymgysylltu â phroses ddeisebau'r Senedd o'r blaen – yn ddiweddarach eleni. Rydym yn rhagweld y bydd y gwaith hwn yn cynnwys argymhellion i sicrhau bod ein proses a'n deunyddiau hyrwyddo mor hygyrch â phosibl.

# 2. Deisebau a drafodwyd rhwng mis Mai 2022 a mis Ebrill 2023

**Tabl 2: dadleuon deisebau**

| Deiseb | Dyddiad y ddadl |
|---|---|
| **Darparu llwybr clinigol, gofal meddygol, ac arbenigwyr i bobl â syndrom tourette yng Nghymru**<br>**10,393 o lofnodion** | 25 Mai 2022 |
| **Achub yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys. Rhaid i Ysbyty Cyffredinol Llwynhelyg gadw gofal brys 24 awr, 7 diwrnod yr wythnos, dan arweiniad meddyg ymgynghorol**<br>**10,678 o lofnodion** | 29 Mehefin 2022 |
| **Ymestyn adran 25B o Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016**<br>**10,572 o lofnodion** | 28 Medi 2022 |
| **Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl**<br>**14,106 o lofnodion** | 19 Hydref 2022 |
| **Rhaid gwarchod mynyddoedd unigryw Cambria yng Nghanolbarth Cymru drwy eu dynodi yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol**<br>**20,856 o lofnodion (17,285 o'r rhain ar bapur)** | 30 Tachwedd 2022 |
| **Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru**<br>**35,101 o lofnodion** | 8 Mawrth 2023 |

# 3. Deisebau'r Flwyddyn

Mae'r Pwyllgor wedi ymrwymo i hyrwyddo'r broses ddeisebu, ac i arddangos y modd y gall pobl Cymru greu newid gwirioneddol yn eu cymunedau, ac mewn polisi cenedlaethol.

**19.** Yr astudiaethau achos a ganlyn yw ein hail set o enwebiadau ar gyfer Deiseb y Flwyddyn. Mae Deisebau'r Flwyddyn yn gysyniad newydd, a gyflwynwyd y llynedd gyda'r bwriad o arddangos deisebau llwyddiannus neu nodedig. Mae'n rhan o awydd y Pwyllgor i hyrwyddo enghreifftiau llwyddiannus o ddeisebau sy'n arwain at newid polisi.

**20.** Yn unol â'r syniad mai pobl Cymru sy'n gosod yr agenda ar gyfer y Pwyllgor Deisebau, pobl Cymru fydd yn dewis pa ddeiseb sydd wedi cael yr effaith fwyaf. Byddwn yn creu pleidlais ar Twitter i alluogi dilynwyr i bleidleisio dros y deisebau enwebedig sydd, yn eu barn hwy, wedi cael yr effaith fwyaf.

**21.** Mae nifer o ddeisebau proffil uchel sydd wedi cael effaith nodedig dros y 12 mis diwethaf ond nad ydynt wedi cau eto – naill ai am ein bod yn aros am ragor o ddatblygiadau, neu am ein bod yn monitro'r broses o gyflwyno newidiadau a argymhellwyd. Bydd y deisebau hyn yn gymwys ar gyfer gwobr y flwyddyn nesaf.

**22.** Rydym wedi nodi'r deisebau a ganlyn i'w cynnwys yn Neiseb y Flwyddyn 2023, a fydd yn destun pleidlais gyhoeddus.

## Diogelwch dŵr ac atal boddi

**Deddf Mark Allen – rydym ni am weld gorsafoedd cortyn taflu o amgylch pob safle dŵr agored yng Nghymru**

Fe foddodd Mark Allen, oedd yn 18 oed, ar ôl neidio i mewn i gronfa rewllyd ar ddiwrnod poeth ym mis Mehefin 2018. Ym mis Mai 2019, fe fuom yn gwylio 3 cortyn taflu'n cael eu gosod wrth y fan lle buodd farw. Gellid bod wedi achub Mark pe byddent yno'n barod.

Rydym ni, teulu a ffrindiau Mark, o'r farn y dylai fod yn gyfraith gwlad i osod cortynnau taflu fel y rheini a osodwyd lle bu farw Mark, mewn lleoedd dynodedig o amgylch pob cronfa ddŵr, llyn, camlas ac ati. Wrth siarad â phobl sy'n gweithio ym maes diogelwch dŵr, e.e. gwasanaethau tân ac ati, mae cortynnau o'r fath wedi achub llawer o fywydau. Rydym ni eisiau achub bywydau ac arbed pobl rhag gorfod dioddef y torcalon a'r trasiedi o golli rhywun y maen nhw'n garu yn boddi.

**23.** Edrychodd ein hymchwiliad yn fanwl ar y materion sy'n codi o'r ddeiseb hon, rydym wedi clywed tystiolaeth gan Diogelwch Dŵr Cymru, cwmnïau cyfleustodau dŵr, y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau, a Cyfoeth Naturiol Cymru i gael darlun llawnach o'r cyd-destun, yr heriau a'r camau gweithredu sydd eu hangen i wella diogelwch dŵr ac atal boddi. Rydym hefyd wedi ymweld â Chronfa Ddŵr Pontsticill, er mwyn gweld drosom ein hunain yr anawsterau sydd ynghlwm wrth wneud safleoedd dŵr helaeth yn ddiogel.

**24.** Gwnaethom gwrdd â theuluoedd sydd wedi colli anwyliaid a chlywed am yr effaith ddinistriol y mae trasiedi o'r fath wedi'i chael ar eu bywydau, ond hefyd am eu hymroddiad diwyd i godi ymwybyddiaeth a sicrhau nad oes rhagor o fywydau'n cael eu colli yn y dyfodol o ganlyniad i foddi. Rydym yn ddiolchgar am eu hamser, eu gonestrwydd, a'u parodrwydd i rannu eu trawma fel y gallai pobl eraill elwa.

### Canlyniad

**25.** Cododd y ddeiseb hon ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, ar ôl casglu 11,027 o lofnodion. Mae'n rhan o ymgyrch ehangach gan fam Mark i godi ymwybyddiaeth o'r peryglon, addysgu'r cyhoedd ac ymgyrchu dros weithredu i hyrwyddo diogelwch dŵr ac atal boddi.

**26.** Gwnaed chwe argymhelliad yn ein hadroddiad gyda phump yn cael eu derbyn ac un wedi'i dderbyn mewn egwyddor gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys dyrannu Gweinidog penodol i sicrhau arweinyddiaeth y gwaith hwn.

**27.** Arweiniodd hefyd at ddadl emosiynol yn y Senedd, lle y cafodd y ddeiseb a'r alwad am welliant gefnogaeth drawsbleidiol. Gyda chefnogaeth y deisebydd Leeanne Bartley, roedd sylw cadarnhaol yn y cyfryngau'n tynnu sylw at y risgiau, yr ymgyrch dros ddiogelwch gwell a gwaith y Pwyllgor.

## Peidiwch â gadael cleifion â chanser y fron metastatig yng Nghymru y tu ôl

Mae pobl sy'n byw â chanser y fron metastatig yng Nghymru yn cael eu hesgeuluso'n ddybryd gan y system. Ar hyn o bryd dim ond un nyrs glinigol arbenigol canser y fron neilltuedig sydd gan Gymru, sefyllfa a allai adael cannoedd o bobl heb ddigon o gymorth. Mae angen i ni wybod faint o bobl sy'n byw gyda chanser y fron metastatig er mwyn gwella gwasanaethau. Ac rydym am wella canlyniadau o ran ansawdd bywyd drwy godi ymwybyddiaeth o symptomau baner goch ar gyfer canser y fron metastatig.

Rydym yn galw am y canlynol:
1. Dylai pob person â chanser y fron metastatig yng Nghymru gael mynediad at nyrs glinigol arbenigol neilltuedig ar gyfer canser y fron eilaidd.
2. Dylid casglu data am y rhai sy'n byw â'r cyflwr ac yn cael triniaeth ar ei gyfer yng Nghymru.

**28.** Mae'r deisebydd, sydd â chanser metastatig y fron, yn ymgyrchu gydag eraill i wella gwasanaethau casglu data a chanser i gleifion. Cytunwyd y dylid trafod y ddeiseb hon, a gasglodd 14,106 o lofnodion, yn y Senedd cyn gynted â phosibl.

**29.** Roeddem yn ostyngedig i gwrdd â'r deisebydd a'i chefnogwyr, sy'n cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol ac elusennau canser, i gael ei deiseb. Gwnaethom ddysgu am ymrwymiad Tassia i wella gwasanaethau iechyd a chymorth i eraill yn y dyfodol, oherwydd ei phrofiadau gwael ei hun a phobl eraill o ddiagnosis, gofal a chymorth. Rydym wedi ysgrifennu at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol sawl gwaith i geisio gwybodaeth ac eglurder.

### Canlyniad

**30.** Cynhaliwyd dadl angerddol a chalonog ym mis Hydref 2022, yn galw am weithredu i sicrhau bod y rhai sydd â chanser metastatig y fron yn cael y gofal a'r cymorth y mae arnynt eu hangen i lywio'r llwybr heriol hwn. Cyfrannodd hefyd at y gwaith o godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o ganser eilaidd y fron, sy'n agwedd bwysig ar waith ymgyrchu ymroddedig Tassia Haines.

**31.** Mae rhai camau cadarnhaol wedi'u cymryd, gan gynnwys ymrwymiad i archwilio gofal canser y fron sylfaenol ac eilaidd, i roi dirnadaeth i'r gofal a geir gan bobl, i gefnogi darpariaeth

gwasanaeth well. Er bod cyflwyno system wybodaeth canser newydd i alluogi defnydd rheolaidd gwell o ddata sy'n ymwneud â chanser metastatig a gwaith Rhwydwaith Canser Cymru ar set o lwybrau canser metastatig y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, gan ddechrau gyda chanser metastatig y fron, yn cael ei groesawu – nid yw'n ddigon.

**32.** Mae'r deisebydd wedi dangos nerth a phenderfyniad ac mae'n parhau i gwestiynu a herio'r diffyg gwasanaethau cymorth priodol i gleifion canser metastatig y fron.

## Gwella Gofal Iechyd Endometriosis yng Nghymru

> Mae endometriosis yn difetha bywydau menywod a'u teuluoedd sy'n byw yng Nghymru gydag 1 o bob 10 yn dioddef o'r cyflwr.
>
> Nid yw achos endometriosis yn hysbys, nid oes gwellhad, yr amser diagnosis ar gyfartaledd yw wyth mlynedd a hanner ac mae rhestr aros chwe blynedd am driniaeth ar y GIG.
>
> Mae'r diffyg dealltwriaeth amlwg o'r cyflwr yn cael effaith niweidiol ar gymdeithas ar bob lefel. Felly mae angen blaenoriaethu cyllid i sicrhau cydraddoldeb gofal iechyd yng Nghymru.
>
> Amlygodd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2018 pa mor fawr yw'r broblem a wynebir gennym gydag adnoddau'n cael eu gwastraffu a'r niwed sy'n cael ei achosi ar hyn o bryd i unigolion sy'n dioddef o endometriosis. Er i'r canfyddiadau ddangos effeithiau ar ofal iechyd, addysg, lefelau economaidd, ariannol a chymdeithasol o fewn cymdeithas, nid yw'r mwyafrif o'r argymhellion wedi'u mabwysiadu ac mewn sawl ardal mae pethau wedi gwaethygu i ddioddefwyr endometriosis.
>
> A fyddech cystal â llofnodi'r ddeiseb hon er mwyn helpu i godi ymwybyddiaeth o endometriosis ac annog Llywodraeth Cymru i ddyrannu'r lefel briodol o gyllid ar gyfer y cyflwr hwn fel y gallwn gymryd camau tuag at sicrhau cydraddoldeb gofal iechyd yng Nghymru.

**33.** Cafodd y ddeiseb hon 5,895 o lofnodion ac, yn hytrach na dadl yn y Senedd, penderfynwyd cefnogi'r deisebydd hwn i godi ymwybyddiaeth o endometriosis, ei effaith, a phryderon ynghylch diffyg darpariaeth iechyd drwy sianeli cyfryngau cymdeithasol.

### Canlyniad

**34.** Gweithiodd Beth Hales, y deisebydd, yn agos gyda'r Senedd i gynhyrchu cynnwys cyfryngau cymdeithasol i rannu ei hymgyrch a'i neges – gan godi ymwybyddiaeth yn effeithiol o'r angen i wella gofal endometriosis a chyfrannu i flog ymchwil addysgiadol i gefnogi hyn.

**35.** Rydym wedi cael gohebiaeth gan y Gweinidog a'r holl Fyrddau Iechyd ac wedi tynnu sylw at yr angen am ragor o ymchwil yn y maes hwn. Rydym hefyd wedi pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu â phobl sydd â phrofiad bywyd o'r cyflwr wrth ddatblygu'r cynllun iechyd menywod.

**36.** Er bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, mae her sylweddol o'n blaenau i ddiwallu anghenion menywod sydd â'r cyflwr nychus hwn. Rydym yn aros am gyhoeddi'r cynllun iechyd menywod yn hydref 2023 a byddwn yn trafod y ddeiseb eto bryd hynny.

## Casglu a chyhoeddi data yn rheolaidd o ran faint o fabanod/plant sy'n dychwelyd at ofal eu rhieni sydd wedi bod mewn gofal ar ddiwedd Lleoliad Rhiant a Phlentyn

Credwn fod llawer o'r rheini sy'n gadael gofal yn cerdded allan o'u lleoliadau gan nad oes llawer o ystyriaeth yn cael ei rhoi i'w profiadau blaenorol na'u lles meddyliol er bod gan fabi hawl i aros gyda'i riant/rhieni os yw'n ddiogel gwneud hynny.

Mae llawer o'r rheini sy'n gadael gofal yn profi ymyrraeth gan wasanaethau cymdeithasol pan fyddant yn rhoi genedigaeth. Mae hyn yn aml oherwydd eu hanes a/neu ddiffyg canllawiau gan eu rhieni eu hunain. Heb os, mae'r rhai sy'n gadael gofal wedi profi trawma yn ystod eu plentyndod ac yn aml yn dioddef o orbryder yn eu bywydau fel oedolion. Yn aml nid ydyn nhw erioed wedi teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yn ystod eu plentyndod ac mae cael eu lle eu hunain wedi bod yn hafan ddiogel iddynt lle maen nhw'n gallu ymlacio'n llwyr. Ar hyn o bryd, os oes unrhyw bryderon, mae rhiant yn cael ei gludo o'i gartref, ei deulu a'i ffrindiau ac yna'n cael ei roi mewn cartref maeth neu gartref preswyl i'w asesu heb fawr o ystyriaeth i'r hyn sy'n sbarduno'r rhiant, a'i les meddyliol. Credwn fod hyn yn aml yn achosi cyfnod emosiynol dros ben ac yna mae rhieni'n gadael eu lleoliadau gan ddifaru am byth y penderfyniad brys a wnaed mewn eiliad bryderus na fyddai wedi digwydd pe bai'r sefyllfa wedi cael ei thrin â mwy o empathi. Rydym am wybod y ffeithiau i weld a oes angen ateb gwell ar gyfer y rhiant a'r plentyn.

**37.** Er bod y ddeiseb yn ceisio sicrhau bod data'n cael eu casglu a'u cyhoeddi i wella canlyniadau, roeddem am wybod mwy am y profiad o ddod yn rhiant i bobl sydd wedi cael profiad o ofal yn eu plentyndod eu hunain.

**38.** Nid oedd yn hawdd gwrando ar y dystiolaeth a gawsom yn ystod yr ymchwiliad. Clywsom am ragfarn a rhagdybiaeth, a hanesion dirdynnol am unigolion yn ei chael yn anodd creu bywydau gwell iddynt eu hunain a'u hanwyliaid. Ond clywsom hanesion mwy gobeithiol hefyd:

am wasanaethau sy'n darparu'r cymorth y mae ar bobl ei angen; ac am unigolion yn goresgyn cryn heriau i ddilyn eu taith fel rhieni.

### Canlyniad

**39.** Derbyniodd Llywodraeth Cymru ddau o'r chwe argymhelliad a wnaed yn yr adroddiad, a'r pedwar arall mewn egwyddor, gan adlewyrchu y bydd angen trafod rhai ymhellach. Mae hyn yn cynnwys ystyried sut i gasglu'r data y gelwir amdanynt ac adolygu llwyddiant cymorth ataliol sy'n canolbwyntio ar gadw teuluoedd ynghyd cyn penderfynu ar ddull gweithredu a chyllid yn y dyfodol. Mae'r Dirprwy Weinidog yn ymrwymo i wella profiadau plant a phobl ifanc i geisio atal cynifer rhag dod i'r system ofal drwy ddarparu mwy o gymorth ataliol.

## Gwahardd rasio milgwn yng Nghymru

> Yng Nghymru, mae gennym un trac rasio milgwn annibynnol sy'n cynnal rasys unwaith yr wythnos. Ers mis Ebrill 2018, mae Hope Rescue a'i bartneriaid achub wedi derbyn bron 200 o filgwn dros ben o'r trac hwn, ac roedd 40 o'r rhain wedi dioddef anafiadau. Mae cynlluniau ar waith i'r trac ymuno â Bwrdd Milgwn Prydain Fawr, a fyddai'n arwain at gynnal rasys bedair gwaith yr wythnos a chynnydd sylweddol yn nifer y cŵn dros ben ac anafiadau. Mae rasio milgwn yn greulon yn ei hanfod, a phrin yw'r warchodaeth gyfreithiol sydd gan filgwn. Mae eisoes wedi'i wahardd ym 41 o daleithiau UDA.

**40.** Cyflwynwyd y ddeiseb gan Hope Rescue a chasglodd 35,101 o lofnodion o bob cwr o'r byd gyda 18,707 o'r rhain o Gymru.

**41.** Penderfynodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth a llunio adroddiad byr. Clywsom dystiolaeth gan elusennau lles milgwn a'r rhai sy'n ymwneud â rasio milgwn ar hyn o bryd. Ein blaenoriaeth fel pwyllgor fu lles milgwn, a oedd yn ganolog i'n hystyriaeth o'r dystiolaeth.

**42.** Ein casgliad mwyafrifol oedd cefnogi'r galwadau cynyddol am wahardd rasio milgwn yng Nghymru. Er bod gan un Aelod bryderon ynghylch cefnogi gwaharddiad, rydym i gyd yn gytûn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried pob opsiwn wrth ymgynghori ar drefniadau yn y dyfodol, er mwyn sicrhau bod lles milgwn yn hollbwysig – ar bob cam o'u bywydau.

### Canlyniad

**43.** Gwnaed pum argymhelliad i Lywodraeth Cymru yn ein hadroddiad, sef Y Troad Terfynol?, a derbyniwyd pedwar ohonynt, a bydd yn bwrw ymlaen i ymgynghori ynghylch a ddylid gwahardd rasio milgwn.

**44.** Trafodwyd yr adroddiad hwn yn y Senedd ym mis Mawrth 2023 pan glywsom safbwyntiau cryf ac angerddol, y rhan fwyaf yn cefnogi'r angen am ragor o gamau i amddiffyn milgwn, gan gynnwys ymgynghoriad ar waharddiad graddol.

**45.** Gweithiodd y deisebydd Hope Rescue yn galed i godi ymwybyddiaeth a thynnu sylw at bryderon, ac arweiniodd y ddeiseb a'r ddadl at sylw yn y cyfryngau yng Nghymru a’r tu hwnt. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu ymgynghori’n ddiweddarach eleni, a bydd yn gofyn am farn am waharddiad.